Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 5 Rhagfyr 2013**

Amser:
**09:00 - 10:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Carys Evans 02920 898598**
Clerc y Pwyllgor

## Agenda
AC(4)2013(18)

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd ar gyfer cytuno arnynt \ Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd ar gyfer cytuno arnynt**
(Tudalennau 1 - 6)
*papur 1a*
*papur 1b*

## 2 Adroddiad blynyddol ar y strategaeth rheoli carbon
*papur 2*

## 3 Adroddiad i'r Comisiwn ar gynnydd y Prosiect i Ddarparu Gwasanaethau TGCh yn y dyfodol
*papur 3*

## 4 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (am y cyfnod rhwng mis Mai a mis Tachwedd) (Tudalennau 7 - 42)

*papur 4*

## 5 Unrhyw Fusnes Arall

Eitem 1c

# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 21 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **10:30 - 12:00** |

## Cofnodion: AC(4)2013(17)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Angela Burns**<br>**Sandy Mewies**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1(i) Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Black AC.

1(ii) Datganiadau o fuddiant

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1(iii) Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

## 2 Cyfieithu peirianyddol: gwella ein capasiti cyfieithu

Roedd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, y cytunodd y Cynulliad arno ym mis Gorffennaf 2013, yn cynnwys ymrwymiad y byddai Comisiwn y Cynulliad yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i gyfieithu dogfennau er mwyn ei gwneud yn bosibl i fwy o ddogfennau, gan gynnwys Cofnod y Trafodion, gael eu darparu yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin, bu'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'n gwerthuso datrysiadau Google a Microsoft Translator at y dibenion canlynol, er mwyn:

- galluogi'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi i gynyddu lefelau allbwn a darparu ystod ehangach o wasanaethau drwy gyfieithu mwy o destun mor gyflym ac mor gost effeithiol ag y bo modd;
- darparu cyfieithu peirianyddol nid yn unig i'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi ond hefyd i aelodau eraill o staff y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u staff hwy drwy ddarparu system hunan-wasanaeth ar gyfer cyfieithiadau 'bras' i hwyluso cyfathrebu ac arferion gwaith yn yr iaith a ddewisir;
- rhannu'r gwasanaethau a'n profiadau â sefydliadau eraill yng Nghymru.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i asesu ansawdd yr allbwn a ddarperir gan y ddwy system.

Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda Microsoft i ddatblygu'r offeryn cyfieithu gyda'r bwriad o'i sefydlu fel system newydd a fydd ar gael yn gyhoeddus ar adeg briodol yn 2014. Bydd Google yn parhau i gael ei dreialu o fewn y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi fel y gellir profi effeithlonrwydd y system hon yn llawn.

Roedd y Comisiynwyr yn falch o'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag asesu gallu'r ddau offeryn cyfieithu peirianyddol. Rhoddwyd pwyslais ar y ffaith y byddai manteision y mathau hyn o gyfleusterau nid yn unig yn cyfranu'n sylweddol at allu pobl yn y Cynulliad i weithio yn eu dewis iaith, ond mae ganddynt y potensial i fod o gymorth mawr i sefydliadau a busnesau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Dylai swyddogion ymgysylltu â phartïon sydd â diddordeb ac arbenigwyr ym maes cyfieithu i drafod y manteision a'r cyfleoedd a gynigir gan offerynnau o'r fath.

Teimlwyd y byddai angen canllawiau a hyfforddiant i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r offerynnau hynny yn y Cynulliad ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o rai o'r risgiau o ran cywirdeb allbwn y system hon. Ni fyddai unrhyw allbwn cyfieithu peirianyddol heb ei ôl-olygu yn briodol i'w ddefnyddio ar gyfer dogfennau i'w cyhoeddi y tu allan i'r Comisiwn a byddai'n hanfodol bod y safonau uchel sy'n ofynnol ar gyfer dogfennau a gyhoeddir yn cael eu cynnal.

Diolchwyd i'r swyddogion am wneud cynnydd sylweddol ar y prosiect hwn dros gyfnod cymharol fyr o amser.

## 3 Unrhyw Fusnes Arall

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Tachwedd 2013**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**CCCC 2013**
**Cofnodion cyfarfod 11 Tachwedd 2013**
**Dyddiad:** Dydd Llun 11 Tachwedd 2013
**Amser:** 12.00-13.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd, Tŷ Hywel

# Cofnodion drafft cyfarfod 11 Tachwedd 2013

**Yn bresennol:**
Rosemary Butler AC, y Llywydd
Sandy Mewies AC
Peter Black AC
Angela Burns AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat
Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn

**Eraill:**
David Melding AC, y Dirprwy Lywydd
Daniel Greenberg

## 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

### Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd Daniel Greenberg i'r cyfarfod a diolchodd iddo am gytuno i gymryd rhan.

### Datgan buddiannau

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

### Cofnodion cyfarfod 17 Hydref 2013

Cytunwyd ar y cofnodion.

## 2. Pwyllgorau Seneddol o Safon Fyd-eang

Trafododd y Comisiynwyr yr arolwg o'r cymorth a ddarperir i Bwyllgorau'r Cynulliad, a lansiwyd ganddynt ym mis Rhagfyr 2012. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am hyn cyn toriad yr haf. Yn dilyn hynny, roedd y Comisiynwyr wedi gofyn i waith pellach gael ei wneud i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer y maes craidd hwn yng ngweithgaredd y Cynulliad ac am opsiynau ar gyfer gwella perfformiad drwy'r adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn.

Nododd y Comisiynwyr eu gweledigaeth ar gyfer pwyllgorau seneddol o safon fyd-eang, gan gytuno:

- y dylent wella yn amlwg ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant y Llywodraeth i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru;
- y dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth;
- y dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.

Roedd y Comisiynwyr yn cydnabod bod maint y Cynulliad yn golygu bod gan bob Pwyllgor lwyth gwaith sylweddol. Ar gyfer rhai Pwyllgorau, roedd y cynnydd yn nifer y darnau o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn effeithio ar faint o amser sydd ar gael i graffu ar bolisi. Cytunwyd bod y Pwyllgorau'n gweithio'n fwyaf effeithiol pan fyddant yn ymdrin â'u gwaith mewn modd strategol. Roedd hyn yn eu helpu i gynyddu eu heffaith a'u cyrhaeddiad.

Mae'r cymorth sydd ar gael i aelodau pwyllgorau, fel papurau briffio dwyieithog, gwaith ymchwil a chyngor cyfreithiol, o safon uchel iawn. Mae'n hanfodol darparu'r rhain mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i anghenion yr Aelodau fel y gallant wneud eu gwaith pwyllgor yn

effeithiol. Dylid parhau i ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu targedu'n dda ac yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Dylai'r Cadeiryddion rannu'r dulliau rhagorol o weithio sy'n gwella perfformiad ac yn cynyddu capasiti yn rheolaidd fel y gellir mabwysiadu arferion arloesol ar draws y Pwyllgorau. Byddai rhannu gwybodaeth yn y modd hwn yn gwella'r perfformiad ar draws y Cynulliad, gan gadw'r hyblygrwydd sy'n galluogi Pwyllgorau i bennu eu strategaethau eu hunain ac i ymdrin â'u llwyth gwaith.

Roedd yr enghreifftiau o'r meysydd rhagorol a amlygwyd gan y Comisiynwyr yn cynnwys ymgysylltu â'r gymdeithas sifil, y gwaith datblygu proffesiynol parhaus a wnaed gan Gadeiryddion unigol a Phwyllgorau, a'r defnydd o gynghorwyr allanol.  Wrth gynghori'r Comisiwn, canmolodd Daniel Greenberg y gwaith a wnaed eisoes gan Bwyllgorau'r Cynulliad a chytunodd bod agweddau ar y gwaith a wneir yma yn cael eu hedmygu gan seneddau eraill, yn enwedig y dull o gynnig datblygiad proffesiynol parhaus a'r defnydd o arbenigedd.

Cytunwyd y byddai'r weledigaeth a'r materion craidd yn cael eu nodi mewn adroddiad gan y Comisiwn. Byddai'r Comisiynwyr yn paratoi drafft o'r adroddiad hwn i'w drafod, ac yna byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau ac eraill.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Tachwedd 2013**

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2013(18) Papur 4**

**Dyddiad:** Dydd Iau 5 Rhagfyr 2013
**Amser:** 9.00 – 10.30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd
**Enw'r awdur:** Claire Clancy

# Adroddiad uchafbwyntiau i'r Comisiwn

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r adroddiad uchafbwyntiau yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, neu sy'n mynd rhagddo, i wneud cynnydd tuag at nodau strategol y Comisiwn. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiynwyr, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau o ran goruchwylio a dwyn y rheolwyr i gyfrif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Mai 2013.

# A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

**2.0 Ailstrwythuro Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad**

2.1 Mae'r broses o ailstrwythuro Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad wedi cael ei chwblhau. Mae'r timau clercio wedi cael eu had-drefnu er mwyn sicrhau bod gan bob Pwyllgor y gallu a'r arbenigedd i wneud gwaith polisi a deddfwriaethol. Dywedwyd wrth y cadeiryddion am y newidiadau dros yr haf ac roedd y timau newydd yn eu lle cyn dechrau tymor yr hydref. Mae pob tîm yn cael ei arwain gan uwch-glerc, sy'n gyfrifol am reoli cefnogaeth y pwyllgor hwnnw, gan dynnu ar adnoddau ychwanegol lle bo angen. Bydd y dull newydd yn darparu cymorth sy'n fwy integredig, ond o ansawdd yr un mor uchel.

*Trawsnewid Strategol*

2.2 Rhan bwysig o'r broses ailstrwythuro oedd creu tîm newydd sy'n canolbwyntio ar drawsnewid strategol ein gwasanaethau yn y tymor hwy. Mae'r tîm yn gyfrifol am lywio'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol y Comisiwn sy'n ymwneud â'r gyfarwyddiaeth fusnes, fel ymgysylltu â phobl ifanc a chyfieithu peiriant. Mae hefyd yn arwain gwaith sy'n ymwneud ag esblygiad y Cynulliad yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn barod i ymateb i ddatblygiadau cyfansoddiadol a newidiadau allanol eraill. Yn ogystal, mae'r tîm yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Bwrdd Taliadau.

*Cefnogi'r Pwyllgorau*

2.3 Ym mis Tachwedd, cymeradwyodd y Comisiwn ei weledigaeth ar gyfer pwyllgorau o'r radd flaenaf. Rydym yn y broses o lunio adroddiad ar adolygiad y Comisiwn o'r gefnogaeth a roddir i'r pwyllgorau. Bydd yr adroddiad hwn yn sail i'r broses o gyhoeddi a gweithredu'r weledigaeth a gwaith cysylltiedig.

2.4 Mae'r pwyllgorau yn parhau i wthio ffiniau yn eu gwaith, yn enwedig o ran denu ystod ehangach o arbenigedd i lywio eu gwaith. Mae hyn yn amlwg yn y defnydd cynyddol o gynghorwyr arbenigol, grwpiau cyfeirio, digwyddiadau pwyllgor a rhaglenni cynhwysfawr o waith allgymorth.

2.5 Mae swyddogion y pwyllgorau wedi bod yn gweithio gyda'r dadansoddwyr busnes mewnol i fapio prosesau'r pwyllgorau er mwyn canfod ffyrdd symlach o ddarparu gwell gwasanaethau i Aelodau, ac i'w gweithredu.

2.6 Mae hefyd wedi bod yn dymor prysur o ran deddfwriaeth. Mae'r Cynulliad wedi trafod tri Bil Aelod; mae dau ohonynt wedi cael eu pasio (er bod un wedi troi yn Fil y Llywodraeth yn y pen draw), a bydd y trydydd yn cyrraedd carreg filltir bwysig ar ben arall y broses, sef cael caniatâd i fwrw ymlaen â chyflwyno'r Bil. Mae'r Cynulliad yn defnyddio'r llwybr cyflym ar gyfer y Bil Rheoli Ceffylau; yn dilyn pryderon am y modd yr ymdriniwyd â'r penderfyniad i beidio â chaniatâu amser ar gyfer craffu ar y Bil hwn yng Nghyfnod 1,

cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes broses newydd ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgor cyfrifol cyn cytuno yn ffurfiol ar amserlen ar gyfer y Bil.

2.7 Wrth i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fynd rhagddo, mae swyddogion yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymateb yn effeithiol i'r gofynion a osodir arnom, wrth i'n pwerau, sy'n dal i aeddfedu, gael eu profi i'r eithaf gan y darn mwyaf, a mwyaf cymhleth, o ddeddfwriaeth rydym wedi'i ystyried hyd yn hyn. Mae'r materion sy'n codi yn cynnwys yr angen i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ein meddalwedd deddfwriaeth, a gafodd ei gaffael ar y cyd, mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol, a'r cwestiwn ynghylch a yw ein Rheolau Sefydlog presennol yn caniatáu digon o amser i wirio Biliau rhwng Cyfnodau.

## 3.0 Cyfeirio'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru) i'r Goruchaf Lys.

3.1 Mae'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol wedi bod yn cydweithio'n agos â chyfreithwyr Llywodraeth Cymru ynghylch sylwadau cyfreithiol y Cwnsler Cyffredinol i'r Goruchaf Lys am y Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

3.2 Cafodd y Bil ei basio ar 17 Gorffennaf 2013. Ar 13 Awst 2013, cyfeiriodd Twrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr y Bil i'r Goruchaf Lys i gael dyfarniad ynghylch a yw ei ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio. Mae'r Bil yn cynnig sefydlu cyfundrefn sy'n gosod telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr amaethyddol, gan gynnwys isafswm cyflog a hawliau o ran salwch a gwyliau. Mae'r Twrnai Cyffredinol yn dadlau bod materion o'r fath y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad.

3.3 Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Llys dros ddau ddiwrnod ar 17 a 18 Chwefror 2014. Y Cwnsler Cyffredinol fydd y prif ymatebydd a bydd yn amlinellu pam fod y Bil, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Fel un o swyddogion y gyfraith yn y Deyrnas Unedig, mae Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon hefyd wedi dweud wrth y Llys ei fod am ymuno fel ymatebydd. Nid oes gan Gomisiwn y Cynulliad hawl awtomatig i gymryd rhan, ond gall wneud cais i wneud hynny os yw'n teimlo bod ganddo unrhyw ddadleuon

cyfreithiol ychwanegol, nad ydynt yn cael eu gwneud gan y Cwnsler Cyffredinol, a allai gynorthwyo'r Llys.

3.4 Ar hyn o bryd, ond yn amodol ar adolygiad o sylwadau cyfreithiol terfynol y partïon sydd dan sylw, nid yw ein tîm gwasanaethau cyfreithiol yn rhagweld y bydd angen argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad ymyrryd yn yr achos.

**4.0 Y Bwrdd Taliadau**

4.1 Cafodd Sandy Blair ei benodi yn gadeirydd dros dro ym mis Hydref, yn dilyn ymddiswyddiad Syr George Reid oherwydd salwch. Mae'r Pwyllgor yn parhau â'r gwaith a gynlluniwyd.

4.2 Mae gohebiaeth ddiweddar gyda Syr George yn dangos ei fod yn gwella'n dda. Enillodd wobr cyflawniad oes yng ngwobrau gwleidydd y flwyddyn yr Alban ar 14 Tachwedd 2013.

**5.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

*Prosiect Trosglwyddo ar gyfer Gwasanaethau yn y Dyfodol*

5.1 Mae'r prosiect wedi cyrraedd y cam terfynol, sef cwblhau'r broses o wahanu oddi wrth Atos a Llywodraeth Cymru. Bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

*Y Strategaeth TGCh*

5.2 Mae cynnydd da wedi cael ei wneud ar y Strategaeth TGCh, gan gynnwys gosod rhwydweithiau di-wifr preifat y Cynulliad, y rhwydwaith di-wifr cyhoeddus yn y Senedd a darparu iPads a ffonau i'r Aelodau. Dyma'r camau cyntaf tuag at ffordd fwy symudol a hyblyg o weithio. Fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig o ran newid sylweddol pellach yw'r ffaith y bydd y Cynulliad yn cymryd rheolaeth dros ei seilwaith TGCh, a fydd yn arwain at rai newidiadau sylweddol.

5.3 Un penderfyniad pwysig, a gymerwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Buddsoddi, oedd cymeradwyo cyflwyno Microsoft Sharepoint i'r Cynulliad fel llwyfan cyffredin ar gyfer rheoli gwybodaeth. Y newid

cyntaf i ddod yn sgîl Sharepoint fydd newid system rheoli cynnwys y wefan, erbyn mis Medi 2014. Bydd Sharepoint yn darparu'r amgylchedd datblygu i awtomeiddio llawer o brosesau busnes, i integreiddio gwasanaethau, i wella'r gallu i chwilio ac i'w gwneud yn llawer haws i ddarparu gwybodaeth a dogfennau pan fydd angen. Bydd hefyd yn cymryd lle systemau presennol fel ABMS a Medialon.

*Llwyddiannau eraill*

5.4 Mae'n werth nodi'r datblygiadau a ganlyn, a gyflwynwyd ers mis Mai:

- Uwchraddio cyfleusterau fideo-gynadledda yn yr ystafelloedd pwyllgor a'r ystafell fideo-gynadledda.
- Treialu'r defnydd o gyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog.
- Gwaith pellach i gefnogi cyfieithu peirianyddol
- Datblygiadau o ran cyflwyno papurau preifat ar iPads.
- Uwchraddio'r microffonau 'ffin' yn y Siambr, sydd wedi gwella'r sain byw a'r sain a gaiff ei ddarlledu, yn enwedig o seddi'r Gweinidogion.
- Gosod system sain newydd yn yr oriel gyhoeddus.
- 'Gwiriadau iechyd TGCh' yn swyddfeydd yr Aelodau yn yr etholaethau.
- Gwaith uwchraddio pellach i'r system Gwaith Achos.

## 6.0 Arolwg bodlonrwydd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.

6.1 Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf i Aelodau a'u staff cymorth ym mis Mehefin 2013. Cyfartaledd y sgôr boddhad gan Aelodau'r Cynulliad oedd 76% (yr un sgôr â 2012). Er bod y sgôr gyffredinol ar gyfer rhai meysydd a chwestiynau wedi cynyddu ers arolwg 2012, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau yn y meysydd canlynol:

- materion TGCh yn gyffredinol;
- pa mor amserol yw papurau'r pwyllgorau a faint o bapurau sy'n cael eu paratoi;
- cynhyrchu trawsgrifiadau pwyllgorau a Chofnod y Trafodion yn gyflymach;
- trefniadau swyddfa yn Nhŷ Hywel;

- cymorth i Aelodau sy'n symud swyddfeydd;
- sylw yn y cyfryngau;
- hyfforddiant (gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg) ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad.

Bydd yr arolwg nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2014. Mae'r arolwg yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, i sicrhau bod ganddo fwy o ffocws, i sicrhau ei fod yn gofyn cwestiynau priodol i staff cymorth, ac i sicrhau nad yw'n ailadroddus.

## 7.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

7.1 Ers mis Ebrill eleni, mae 373 o gyfranogwyr wedi bod i'r sesiynau hyfforddi Datblygiad Proffesiynol Parhaus a ddarperir gan y Tîm Datblygu Proffesiynol. Roedd 87 ohonynt yn Aelodau Cynulliad. Rhestrir detholiad o sesiynau hyfforddiant yn Atodiad A.

## 8.0 Blog newydd y Gwasanaeth Ymchwil

8.1 Yn dilyn lansiad blog ymchwil llwyddiannus gan ein cydweithwyr yn Senedd Awstralia, lansiodd y Gwasanaeth Ymchwil ei flog, 'Pigion', ym mis Hydref 2013. Mae'r blog yn ailddefnyddio'r cyfoeth o wybodaeth sy'n cael i gasglu fel rhan o waith y gwasanaeth ar gyfer Aelodau a'u staff i gyflwyno casgliad amrywiol o erthyglau ymchwil byr a hygyrch ar faterion cyfoes; o grynodebau polisi a diffiniadau cyfreithiol i gwestiynau cyffredin a dadansoddiadau ystadegol. Caiff yr erthyglau eu trefnu yn ôl pwnc, felly gellir dod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym. Mae papurau ymchwil, hysbysiadau hwylus a nodiadau ymchwil hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y safle:

http://assemblyinsight.wordpress.com neu
http://pigion.wordpress.com

8.2 Gall aelodau gofrestru i gael y cyfraniadau diweddaraf drwy e-bost, gan ddefnyddio'r botwm ar ochr dde'r dudalen. Bydd y blog yn cael ei gysylltu â'r cyfrif Twitter (@YmchwilCCC) er mwyn sicrhau na fydd yr Aelodau'n colli cyfraniad.

# B. Nod strategol – Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

## 9.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

9.1 Fel rhan o'i hymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, lansiodd y Llywydd borthol ar y we ym mis Medi. Mae'r porthol hwn yn cynnwys manylion am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru; cyfleoedd hyfforddi priodol ar gyfer menywod sy'n dymuno ymgymryd â phenodiad cyhoeddus, a straeon ysbrydoledig gan fodelau rôl benywaidd.

9.2 Ym mis Ionawr, bydd y Llywydd yn lansio cynllun mentora Cymru-gyfan sydd wedi'i anelu at fenywod. Bydd y cynllun yn darparu hyfforddiant dwys ym maes datblygiad personol a sgiliau, cymorth mentora un-i-un a chyfleoedd cysgodi rôl ar y lefelau uchaf. Y bwriad yw ysgogi ac annog cyfranogwyr ledled Cymru i wneud ceisiadau llwyddiannus am benodiadau cyhoeddus ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

9.3 Bydd cyfres o ddarlithoedd llwyddiannus y Llywydd, sy'n proffilio menywod mewn meysydd sydd, yn draddodiadol, yn rhai gwrywaidd, hefyd yn parhau yn 2014.

## 10.0 Gweithgareddau allgymorth

10.1 Mae'r tîm Cyfathrebu wedi comisiynu arolwg gan Beaufort i fesur lefelau o ymgysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'r hyn y mae pobl yn ei wybod amdano. Bydd y canlyniadau yn dod i law ym mis Rhagfyr a byddan nhw'n cael eu rhannu gyda'r Comisiwn ym mis Ionawr. Nodir cwestiynau'r arolwg yn Atodiad B.

10.2 Mae rhaglen o ffrydiau Twitter ar bynciau penodol yn cael ei chyflwyno, sy'n darparu gwybodaeth yn ôl diddordebau pobl, yn hytrach na'r modd y mae'r Cynulliad wedi'i drefnu yn fewnol. Yr amgylchedd ac iechyd yw'r ddau faes pwnc cyntaf. Mae ffrwd y Siambr hefyd wedi cael ei lansio, sy'n rhoi gwybodaeth i'r rheini sydd

am wylio Cyfarfodydd Llawn. Bydd mwy o ffrydiau Twitter yn dilyn unwaith y bydd y cynlluniau peilot cychwynnol wedi cael eu dadansoddi i weld sut maent yn gweithio, ac i sicrhau nad ydynt yn cymryd gormod o amser staff.

10.3 Mae timau'r pwyllgorau wedi bod yn chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl Cymru yng ngwaith y Cynulliad. Mae'r pwyllgorau yn defnyddio Twitter yn gynyddol i gysylltu â'u rhanddeiliaid. Maent hefyd yn defnyddio dulliau arloesol ar gyfer cyswllt wyneb-yn-wyneb, yn ogystal â defnyddio cyfryngau eraill. Mae hyn wedi bod yn wir yn achos casglu tystiolaeth, yn ogystal ag adrodd yn ôl. Er enghraifft, cynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes drafodaethau gyda grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd yn y Pierhead i gychwyn yr ymchwiliad i Fasnachfraint Cymru a'r Gororau. Yn ogystal, lansiwyd adroddiad y Pwyllgor ar entrepreneuriaeth gyda fideo o'r Aelodau yn ymateb i'r adroddiad, adroddiad cryno ar gyfer cyfranwyr i'r ymchwiliad, a sesiynau adborth gyda'r entrepreneuriaid ifanc a ymddangosodd yn y fideo o dystiolaeth.

10.4 O ran deddfwriaeth, mae dilynwyr y Cynulliad ar Twitter wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Bil Rheoli Ceffylau, a chafodd rhanddeiliaid y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai cyn cyflwyno'r Bil Tai.

## 11.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau

11.1 Mae'r cyfryngau wedi rhoi sylw mawr i nifer o faterion yn ystod y misoedd diweddar, gan gynnwys y Ddeddf Trawsblannu Dynol, a gafodd sylw eang ledled y DU a thu hwnt.

11.2 Cafodd lansiad adroddiad Entrepreneuriaeth y Pwyllgor Menter a Busnes sylw eang, gan gynnwys trydariad sydd wedi ennill statws 'Top Tweet' gan Twitter.

11.3 Rhoddwyd sylw da i fusnes y Cynulliad - ceir rhestr o lincs i dudalennau newyddion ar gyfer straeon mawr yn Atodiad C.

11.4 Rhoddwyd sylw yn y cyfryngau hefyd i agweddau eraill ar fusnes y Cynulliad, y Llywydd a gweithgarwch Comisiwn y Cynulliad.

## 12.0 Ymgysylltu â phobl ifanc

12.1 Mae bron i 3,000 o bobl ifanc wedi cyflwyno holiaduron i'r ymgynghoriad ar ymgysylltu â phobl ifanc, sydd bellach wedi cau. Roedd llawer o'r bobl ifanc wedi cael ymweliadau gan staff y Cynulliad i hwyluso trafodaethau ynghylch beth fyddai'n eu cymell i ymgysylltu â gwleidyddiaeth, a sut y gall y Cynulliad eu galluogi i wneud hynny. Cafwyd ymweliadau â grwpiau a fforymau ieuenctid yn ogystal ag ysgolion, ac fe dargedwyd y bobl ifanc hynny sy'n anodd eu cyrraedd. Roedd adborth o'r sesiynau yn gadarnhaol, ac roedd y bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r deunydd darllen, a oedd yn addas iddynt, yn ogystal â'r cyfle i drafod y mater mewn lleoliad a oedd yn hamddenol ac yn gyfarwydd iddynt.

12.2 Bydd grwpiau ffocws ieuenctid ledled Cymru yn cyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf i drafod canlyniadau'r ymgynghoriad a rhinweddau nifer o ddulliau ymgysylltu posibl. Bydd y Llywydd yn cyflwyno'r canfyddiadau i'r Grŵp Llywio ym mis Ionawr 2014 fel y gall ddylanwadu ar y dewisiadau a gyflwynir i'r Comisiwn ym mis Chwefror.

## 13.0 Hybu Cymru Dramor

13.1 Mae Atodiad D yn rhestru'r prif ddigwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol.

## Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

### 14.0 Rhaglen fuddsoddi

14.1 Mae'r Bwrdd Buddsoddi yn cyfarfod yn rheolaidd ac, ers mis Ebrill, mae wedi cymeradwyo'r cynigion canlynol, yn ogystal â pharhau i adolygu prosiectau sydd eisoes yn fyw:

- Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus
- Prosiect y wefan / Sharepoint
- Prosiect diweddaru'r Senedd: Cam 3
- Cyfieithu peirianyddol
- Prosiect Teleffoni 1
- Gwella'r llif gwaith darlledu
- Ymgysylltu â phobl ifanc

Ceir amlinelliad o bob cynnig yn Atodiad E.

### 15.0 Llywodraethu Gwybodaeth

15.1 Mae Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad wedi nodi'r cynnydd da o ran y gwaith i wella llywodraethu gwybodaeth yn y Cynulliad dros y chwe mis diwethaf. Lluniwyd cofrestri asedau gwybodaeth ar gyfer pob gwasanaeth. Maent yn cael eu hadolygu, ac yn destun asesiad risg, o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Mae adolygiadau yn dangos cynnydd da o ran rheoli asedau gwybodaeth mewn llawer o feysydd, ac mae canllawiau mwy manwl ar gryfhau asesiadau risg gwybodaeth yn cael eu cyflwyno i Berchnogion Asedau Gwybodaeth y mis hwn.

15.2 Cytunodd y Bwrdd Rheoli ym mis Mehefin y dylid dechrau ar y gwaith o lunio amserlen gadw ar gyfer y Cynulliad, er mwyn annog pobl i ddileu asedau a chofnodion ar ôl iddynt basio eu cyfnodau cadw. Lluniwyd amserlenni drafft gan wasanaethau dros yr haf. Ar hyn o bryd, maent yn cael eu gwirio yn erbyn arfer gorau a gofynion statudol, cyn iddynt gael eu gweithredu.

15.3 Mae'r grŵp swyddogion gwybodaeth wedi cyfarfod ddwywaith ac maent yn cael eu datblygu i fod yn bwyntiau cyfeirio lleol ar faterion gwybodaeth o fewn gwasanaethau. Mae'r rheolwr llywodraethu

gwybodaeth wedi parhau i fynd i gyfarfodydd tîm a gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth am reoli gwybodaeth, diogelu data ac adrodd am achosion o dorri rheolau diogelwch gwybodaeth. Mae blog rheoli gwybodaeth, ynghyd ag adran llywodraethu gwybodaeth newydd ar fewnrwyd y staff, wedi cael ei ddatblygu a bydd yn mynd yn fyw y mis hwn.

15.4 Yn gynharach eleni, trefnwyd ymweliadau cynghori gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer tair swyddfa etholaethol. Dyma'r ymweliadau cyntaf o'r fath ar gyfer cynrychiolwyr etholedig yn y DU. Ym mis Medi, cawsom adroddiad terfynol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a oedd yn nodi meysydd cyffredin o arfer da, ynghyd ag argymhellion arfer da. Roedd y Swyddfa yn falch bod Aelodau'r Cynulliad yn mabwysiadu dull mor rhagweithiol ar gyfer delio â materion diogelu data a diogelwch gwybodaeth.

## 16.0 Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol – Dangosyddion perfformiad allweddol

Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Perfformiad Corfforaethol ar ei newydd wedd, ar ffurf dangosyddion perfformiad allweddol, ym mis Medi: http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/about_us-commission_publications/key_performance_indicator_reports.htm

16.1 Mae'r adroddiad yn gwella tryloywder ac atebolrwydd o ran y modd y mae'r Comisiwn wedi cyflawni mesurau perfformiad allweddol, sydd wedi'u halinio at ein nodau strategol. Bydd yr adroddiad nesaf yn ymdrin â'r cyfnod Ebrill – Rhagfyr 2013.

## 17.0 Prosiect adnoddau dynol a'r gyflogres – mynd yn fyw

17.1 Aeth y system adnoddau dynol a chyflogres integredig newydd yn fyw ar 1 Tachwedd ac roedd yn gyfrifol am dalu'r holl Aelodau, staff cymorth, staff y Comisiwn a phensiynwyr AC am y tro cyntaf ar 29 Tachwedd.

17.2 Bydd y system newydd, a gaiff ei darparu gan NorthgateArinso, yn cymryd lle'r ddwy system ar wahân a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y

tîm adnoddau dynol a'r gyflogres. Roedd angen aildendro am y cytundebau hyn. Mae'r system newydd yn cynnig llawer o fanteision i'r sefydliad, gan gynnwys lleihau dyblygu o ran trin data, gwella cywirdeb data a chynnig hyblygrwydd nad yw ar gael hyn o bryd gyda'n systemau presennol (er enghraifft, dyddiadau cau hwyrach ar gyfer y gyflogres i'r Aelodau). Bydd cost net y system dros y deng mlynedd nesaf yn llai na chost y model presennol o weithredu.

17.3 Bydd y newidiadau i Aelodau a Staff Cymorth yn fach iawn - bydd y gwahaniaeth mwyaf amlwg i'w weld yn y slip talu newydd.

## 18.0 Materion Staff

*Buddsoddwyr mewn Pobl*

18.1 Yn dilyn yr asesiad ym mis Mehefin, roeddem yn hynod falch i ennill Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl am yr ail dro. Mae safon Buddsoddwyr mewn Pobl yn feincnod annibynnol ac allanol o'n harferion o ran ymdrin â phobl. Mae'n helpu i lywio ein ffyrdd o gynllunio datblygiad staff ac alinio amcanion personol pawb â chyflawni Amcanion Strategol y Comisiwn. Rydym yn hyrwyddo ein harfer gorau yn eang, fel wrth gysylltu â sefydliadau eraill ac wrth hybu'r Cynulliad fel lle gwych i weithio.

*Secondiadau*

18.2 Yn y flwyddyn hyd at Dachwedd 2013, rydym wedi cefnogi 45 o leoliadau mewnol a 42 o leoliadau i sefydliadau allanol. Mae'r lleoliadau hyn yn rhoi cyfleoedd gwych i staff gael profiad o sut mae sefydliadau eraill yn gweithio, yn ogystal â datblygu eu sgiliau a'u profiadau a rhannu arfer da.

*Arolwg staff*

18.3 Roedd 77% o'r staff wedi cwblhau'r arolwg staff diweddaraf, a gynhaliwyd ar ddiwedd tymor yr haf. Hwn oedd y gyfradd gwblhau mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn - 52% oedd y ganran ar gyfer arolygon blaenorol. Nodwyd nifer o welliannau cadarnhaol, sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Mae'n arbennig o braf gweld bod y

sgoriau mewn llawer o feysydd yn llawer iawn uwch na sgoriau Arolwg Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil.

18.4 Yn ystod mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfarfodydd ar gyfer yr holl staff yn Nhŷ Hywel a swyddfa Bae Colwyn i roi cyfle i staff drafod y canlyniadau gyda'r Bwrdd Rheoli. Mewn ymateb i'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r arolwg ac o gyfarfodydd staff, cytunodd y Bwrdd Rheoli i gryfhau ein dull o recriwtio a rheoli perfformiad, gan gynnwys sicrhau mwy o gysondeb. Roedd staff hefyd wedi gwneud ymrwymiadau personol i wella sut rydym yn gweithio.

Prif ganlyniadau'r arolwg staff:

| **Datganiad** | **Y ganran sy'n cytuno (gan gynnwys y rhai sy'n cytuno'n bendant)** | | |
|---|---|---|---|
| | **Gorffennaf 2012** | **Awst 2013** | **Holiadur Pobl diweddaraf y Gwasanaeth Sifil** |
| Byddwn yn argymell y Cynulliad fel lle gwych i weithio. | 78% | 81.4% | 46% |
| Teimlaf fod y Cynulliad cyfan yn cael ei reoli'n dda. | 57.5% | 60.8% | 43% |
| Mae cydbwysedd da rhwng fy mywyd gwaith a fy mywyd preifat. | 72.3% | 70.6% | 68% |
| Caf y wybodaeth sydd ei hangen arnaf a chaf bethau o'm cwmpas i wneud y gwaith yn dda | 64.9% | 79.4% | 68% |
| Mae fy nhîm yn mynd i'r afael yn effeithiol â pherfformiad gwael. | 43.5% | 47.8% | 37% |
| Rhoddir gwerth ar fy marn – Gorffennaf 2012<br>Gofynnir fy marn ac rwy'n cymryd rhan mewn unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar fy ngwaith – Awst 2013 | 56.9% | 59.2% | 36% |
| Mae'n ddiogel lleisio barn a herio'r modd y caiff pethau eu gwneud yn y Cynulliad. | 34.6% | 40.3% | 40% |

*Adolygiad o'r Cynllun Prentisiaethau*

18.5 Yn dilyn peilot llwyddiannus Cynllun Prentisiaethau'r Cynulliad, mae nifer y swyddi Prentis wedi cynyddu o bedwar i chwech ac rydym yn recriwtio ar hyn o bryd. Daeth tua 30 o bobl i'r Diwrnod Agored Prentisiaethau yn y Pierhead ym mis Hydref ac, yn dilyn hynny, daeth 69 o geisiadau i law. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â'r Cynulliad ym mis Ionawr 2014.

*Recriwtio i swyddi proffil uchel*

18.6 Dros yr haf, gwnaethom gefnogi'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i recriwtio pum aelod anweithredol (un ohonynt yn Gadeirydd) o Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rolau anweithredol newydd hyn yn ffurfio rhan o'r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Roedd llawer o ddiddordeb yn y rôl a chafwyd 82 o geisiadau. Cafwyd cymorth gan Gary Martin o Brifysgol Ulster a Bwrdd Cynghori Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon i weithredu fel aelod o'r panel annibynnol.

18.7 Mae'r broses o recriwtio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus newydd i Gymru yn mynd rhagddo, yn dilyn penodi Ombwdsmon Dros Dro, Yr Athro Sylvia Margaret Griffiths, ar ôl ymddiswyddiad Peter Tyndall.

## 19.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

*Action on Hearing Loss: Nod Siarter 'Yn Uwch na Geiriau'*

19.1 Mae'r Cynulliad wedi cyflawni Nod Siarter ‘Yn uwch na geiriau’ yr elusen Action on Hearing Loss. Rhoddir y wobr hon i sefydliadau sy'n gweithio tuag at gynnig gwasanaethau gwych i bobl fyddar neu sydd â nam ar eu clyw. Fel rhan o'r broses hon, cynhaliwyd archwiliad o'n cyfleusterau, offer cyfathrebu (e.e. dolenni sain) ac arferion gwaith i weld pa mor addas a hygyrch ydynt i bobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu clyw. Yn dilyn gohebiaeth ag Aelodau'r Cynulliad, rydym yn archwilio opsiynau pellach i wella hygyrchedd trafodion y Cynulliad.

*Cefnogi staff o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a chynyddu cynrychiolaeth BME yn y gweithlu*

19.2 Mae data a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol 2012-2013 yn dangos bod 70% o'n staff BME wedi'u cyflogi ar y raddfa gyflog isaf ac na chafodd unrhyw un o gefndir BME ei recriwtio rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei gytuno i ganfod sut i gefnogi staff BME yn well a sut i gynyddu cynrychiolaeth BME yn y gweithlu.

*Cyfnewidfa gydraddoldeb rhyngseneddol*

19.3 Ym mis Medi, croesawodd y Tîm Cydraddoldeb eu cymheiriaid o seneddau'r DU i'r Cynulliad i adeiladu perthnasau a rhannu arfer gorau a phryderon.

*Hyfforddiant hyder anabledd a chefnogi staff LGB*

19.4 Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi cyflwyno hyfforddiant hyder anabledd i staff Cyswllt Cyntaf, i'w galluogi i groesawu ymwelwyr anabl yn effeithiol. Maent hefyd wedi darparu sesiynau i reolwyr diogelwch ar sut i gefnogi staff LGB. Byddwn yn parhau i gynnig y ddau fodiwl hyfforddi i staff.

## 20.0 Gwaith ar Ystâd y Cynulliad

*Mynedfa Dan Do Tŷ Hywel*

20.1 Yn dilyn cytundeb y Comisiwn, cwblhawyd gwaith yn ystod toriad yr haf i adeiladu mynedfa newydd dan do i Dŷ Hywel ac i ad-drefnu ein cyfleusterau derbynfa a diogelwch.

20.2 Mae'r gwaith wedi arwain at welliannau llwyddiannus, drwy:

- sicrhau mynediad cyfartal i bob ymwelydd â'r ystad;
- sicrhau nad oes angen i grwpiau, gan gynnwys ysgolion, giwio yn Stryd Pierhead.
- gwella'r croeso i ymwelwyr; a
- darparu trefniadau diogelwch sy'n fwy priodol.

20.3 Cafodd y gwaith ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb a gytunwyd. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol gan ymwelwyr ynghylch y croeso a'r profiad i ymwelwyr.

20.4 Fel rhan o'r prosiect, darparwyd dwy ystafell gyfweld ar gyfer Aelodau, ger y dderbynfa, er mwyn iddynt allu cwrdd ag etholwyr ac ymwelwyr eraill. Mae'r cyfleuster hwn ar gyfer Aelodau hefyd wedi cael adborth cadarnhaol.

*Adnewyddu swyddfeydd Tŷ Hywel i wneud y mwyaf o'r lle sydd ar gael ar ein hystâd.*

20.5 Dros yr haf, gwnaed gwaith adnewyddu yn hen ystafell serfiwr y GIG ar lawr 2A, ac ym mloc 4A, i alluogi cyd-leoli timau a gwasanaethau'r Comisiwn ac i sicrhau eu bod yn hygyrch i Aelodau a'u staff.

*Bolardiau Diogelwch Newydd - Tŷ Hywel*

20.6 Yn dilyn adolygiad diogelwch ac i wella diogelwch yr adeilad a'i holl ddefnyddwyr, mae bolardiau diogelwch wedi cael eu gosod ar ymyl y palmant o flaen mynedfa Tŷ Hywel ac ar hyd Cei Britannia i fynedfa'r maes parcio. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan honno o'r ystâd sy'n wynebu ffordd gyhoeddus yn cael ei gwarchod.

*Achrediad amgylcheddol - y Ddraig Werdd, Lefel 5*

20.7 Yn dilyn asesiad annibynnol trwyadl o system reolaeth amgylcheddol y Cynulliad, rydym wedi llwyddo i gadw achrediad lefel 5 y Ddraig Werdd. Drwy gadw'r safon, mae hyn yn dangos bod y Cynulliad yn deall, yn rheoli ac yn lleihau ei effeithiau amgylcheddol yn effeithiol.

# C. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Faterion Ariannol

## 21.0 Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2012-2013

21.1 Daeth proses adrodd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfrifon 2012-13 i ben gyda'r llythyr rheoli, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd. Ni amlygwyd unrhyw bryderon mawr gan Swyddfa Archwilio Cymru, a ddywedodd y byddai unrhyw welliannau a wneir ar gyfer y flwyddyn nesaf yn fater o fireinio proses sydd eisoes yn effeithiol iawn. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cadarnhaol iawn, yn ogystal â'r gwelliannau parhaus a welir ym mhob llythyr rheoli.

## 22.0 Blwyddyn ariannol 2013-14

22.1 Y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2013-14 yw £49.5 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £13.7 miliwn ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau a £35.8 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad. Mae gennym ddau ddangosydd perfformiad ariannol allweddol, sef cyflwyno alldro diwedd blwyddyn o 1% neu lai ac i gyflawni £500,000 o arbedion Gwerth am Arian. Mae'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd mis Hydref yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni'r ddau nod hyn.

## 23.0 Cyllideb 2014-15

23.1 Yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd, cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2014-15. Cyllideb y flwyddyn nesaf fydd £50.6 miliwn. Dyma'r gyllideb olaf yn y strategaeth fuddsoddi tair blynedd y cytunwyd arni yn 2012-13. Mae gwaith ar gyllideb 2015-16 wedi dechrau a bydd y papur strategaeth yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynwyr yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## 24.0 Uchafbwyntiau o ran Gwerth am Arian

24.1 Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r tîm Cyllid wedi bod yn cymryd camau i ymgorffori a hyrwyddo'r rhaglen Gwerth am Arian drwy newidiadau i'r safle ar y fewnrwyd a thrwy ymwneud yn fwy â'r Bwrdd Rheoli a rheolwyr cyllidebau eraill. Mae'r ymgyrch i sicrhau ein bod yn

cyflawni gwerth am arian ar gyfer pob punt a wariwn yn mynd rhagddo, ac mae'n cael ei hyrwyddo ar draws y Comisiwn.

24.2 Rhwng mis Ebrill a mis Hydref, mae gwasanaethau'r Cynulliad wedi gwneud arbedion Gwerth am Arian o £0.319 miliwn yn erbyn targed o £0.500 miliwn drwy reoli swyddi gwag.

*Gwerth am Arian drwy gaffael*

24.3 Erbyn hyn, mae tendrau yn cael eu cyhoeddi a'u derbyn yn electronig, gan wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ystod y cyfnodau caffael.

24.4 Yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn hon, mae pum contract wedi cael eu dyfarnu: Dyfeisiau symudol; Di-wifr cyhoeddus; Hyfforddiant Gwaith Achos; Gwasanaethau Archwilio Mewnol; a Hyfforddiant Cyfryngau i'r Aelodau. Mae'r trafodaethau contract ar gyfer yswiriant, dyfeisiau symudol a gwasanaethau archwilio mewnol wedi arwain at arbedion amcangyfrifedig o £94 miliwn dros y cyfnod 2013-14 i 2016-17.

24.5 O blith y pum contract a ddyfarnwyd, dim ond un sydd wedi mynd i gwmni cenedlaethol / rhyngwladol mawr, sef y contract dyfeisiau symudol. Mae pob un o'r contractau eraill wedi cael eu dyfarnu i fusnesau bach a chanolig, o Gymru yn bennaf, sy'n tystio bod ein dull o roi cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig lleol i ennill ein busnes yn dwyn ffrwyth.

24.6 Ym mis Mai, roedd y Cynulliad yn gartref i'r Fforwm Caffael Seneddol. Cyfarfod blynyddol Penaethiaid Caffael seneddau'r DU yw hwn, lle rhennir arfer da. Mynychwyd y digwyddiad gan gynrychiolwyr o Ogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi ac Ynys Manaw a chafwyd adborth cadarnhaol gan y cynrychiolwyr yn dilyn y digwyddiad.

## D. Rhyddid Gwybodaeth


**25.0** Mae rhestr o wybodaeth a ddatgelwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ers yr adroddiad diwethaf i'w weld yn Atodiad F. Mae hyn

yn berthnasol i'r cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2013 ac mae wedi cael ei gategoreiddio i ddangos pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion am y wybodaeth gafodd ei ddal yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth.

25.1 Mae'r siart isod yn dangos y 20 cais yn ôl categori. Mae dau o'r ceisiadau yn ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad a staff y Comisiwn, felly maent wedi'u cynnwys yn y ddau gategori.

25.2 O blith y 20 o geisiadau a dderbyniwyd, ni chafodd gwybodaeth ei heithrio ar sail amser a chost, a chafodd wyth o geisiadau eu dal yn ôl. Ni chafodd amser/cost ymdrin â cheisiadau ei fesur, ond yn achos pedwar cais, roedd angen gwneud llai o waith i baratoi'r ymateb, neu nid oedd angen gwneud dim gwaith, oherwydd bod y wybodaeth ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cynulliad.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (Mis Ebrill i fis Medi 2013)**



**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl nifer (Mis Ionawr i fis Medi 2013)**

| Nifer | Ionawr – Mawrth 2013 | Ebrill – Medi 2013 | Cyfanswm hyd yma 2013 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm ceisiadau | 26 | 20 | 46 |
| Ceisiadau gafodd eu dal yn ôl | 1 | 8 | 9 |
| Dim gwybodaeth wedi'i chadw | 0 | 0 | 0 |
| Eithriadau ar sail amser / cost | 0 | 0 | 0 |

Atodiad A

**Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad – enghreifftiau o raglenni**

Craffu Ariannol

Roedd Aelodau, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff y Comisiwn wedi cymryd rhan ym modiwl cyntaf yr hyfforddiant craffu ariannol a ddarparwyd gan CIPFA ar y cyd â'r Gwasanaeth Ymchwil. Cyflwynwyd yr hyfforddiant i grwpiau pleidiau ac roedd yn cwmpasu meysydd fel gwerth am arian a chraffu ar y gyllideb. Bydd y ddau fodiwl nesaf yn cael eu cyflwyno drwy Bwyllgorau'r Cynulliad yn y flwyddyn newydd.

Hawliau'r Plentyn

Ar y cyd ag Achub y Plant ac Arsyllfa Cymru, cafodd Aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hyfforddiant i wella eu gallu i brif-ffrydio materion hawliau plant trwy eu holl waith. Roedd hyn yn sesiwn ddilynol i sesiwn a drefnwyd yn flaenorol ar gyfer Pwyllgor hwnnw a'r Pwyllgor Cyllid.

Cyfathrebu

Roedd y rhai a oedd yn bresennol ar y cwrs hyfforddi cyfryngau wedi dysgu sut i wneud y gorau o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltiad gyda'r Cynulliad a gwleidyddiaeth. Yn dilyn ymarfer caffael diweddar, gallwn nawr ddarparu cyrsiau pellach, ac mae'r cynnig nawr yn cynnwys strategaethau cyfryngau a rheoli materion.

Mae nifer o staff cymorth wedi cymryd rhan mewn cwrs ysgrifennu effeithiol, sy'n anelu at gynyddu eglurder ac ansawdd gwaith ysgrifenedig.

Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau

Yn dilyn yr adolygiad diweddar o Bwyllgorau'r Cynulliad, rydym nawr yn datblygu rhaglen datblygiad proffesiynol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau. Yn seiliedig ar y disgrifiad rôl ar gyfer Cadeiryddion, y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Busnes ar ddechrau'r Cynulliad hwn, bydd y rhaglen yn edrych ar

wella effaith a pherfformiad cadeiryddion. Ar hyn o bryd, mae opsiynau yn cael eu treialu gyda dau o gadeiryddion.

Biliau'r Cynulliad - dosbarth meistr gwelliannau

Ar y cyd â'r Cwnsler Seneddol Daniel Greenberg, Gwasanaethau Cyfreithiol a Chlercod y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, cyflwynwyd dosbarth meistr gwelliannau i Aelodau a staff cymorth grŵp y Ceidwadwyr. Rhoddodd y sesiwn gyfle i'r cyfranogwyr ystyried gwahanol fathau o welliannau a sut y gellid eu defnyddio i gyflawni gwahanol ddibenion. Cafwyd adborth da iawn ar y sesiwn ac mae ar gael i bob grŵp a Phwyllgor os ydynt yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn.

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Cafodd staff sy'n gweithio mewn swyddfa etholaethol yn ne Cymru hyfforddiant a oedd yn anelu at roi sgiliau ymarferol er mwyn ymdrin yn rhesymegol ac yn effeithiol â chwsmeriaid neu staff anodd. Clywodd y cyfranogwyr sut y gallent gynghori a gweithredu mewn amgylchiadau penodol a sut orau i gefnogi etholwyr ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Gwersi Cymraeg

Mae llawer o Aelodau a staff cymorth yn parhau i ddysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau a thrwy hyfforddiant unigol. Mae'r tîm datblygu proffesiynol hefyd wedi trefnu i Aelodau a staff cymorth fynychu hyfforddiant preswyl ac, yn fuan, bydd yn cyflwyno cwrs gloywi iaith ar gyfer y rhai sy'n dymuno cynyddu eu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig yn y gweithle. Mae pecyn o adnoddau, gan gynnwys cyfleoedd ar-lein ac e-ddysgu, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael yn eang yn y flwyddyn newydd.

Hyfforddiant rheoli ac arwain

Mae'r rhaglen hon wedi'i hanelu at staff cymorth ac mae'n caniatáu i gyfranogwyr ystyried eu harddulliau arwain eu hunain ac yn eu galluogi i gynllunio eu datblygiad drwy fod yn fwy hunan-ymwybodol a thrwy ystyried rôl y rheolwr.

Mae'r rhaglen wedi'i hachredu drwy'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) ac fe'i cyflwynir ar Lefel 5 a Lefel 7. Bydd yn rhedeg dros gyfnod o 8 mis, sy'n cynnwys tri modiwl ag achrediad dewisol drwy gwblhau dau aseiniad.

Atodiad B

**Cynulliad Cenedlaethol: Cwestiynau Omnibws Tachwedd 2013**
**Mesur ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd**

Dangosydd perfformiad allweddol: Ymgysylltu
Llwyddiant = cynnydd mewn gweithgarwch bob blwyddyn ar y rhan fwyaf o ddangosyddion yn C1.

C1. Pa un o'r canlynol ydych chi wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

- Gwylio dadl neu bwyllgor ar y teledu neu ar-lein
- Darllen, clywed neu wylio eitemau newyddion am y Cynulliad
- Ymweld â'r Cynulliad - naill ai ym Mae Caerdydd, neu yn ein swyddfa yng Ngogledd Cymru.
- Bod ar daith o amgylch adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd.
- Cwrdd ag Aelod Cynulliad
- Ymweld â gwefan y Cynulliad neu wedi gweld gwybodaeth am y Cynulliad ar Facebook neu Twitter
- Bod i ddigwyddiad yn adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd
- Mynychu dadl neu sesiwn pwyllgor yn y Cynulliad neu mewn lleoliad arall yng Nghymru
- Creu neu lofnodi deiseb i'r Cynulliad
- Arall - nodwch beth ydyw
- Dim un o'r uchod

Dangosydd perfformiad allweddol: Dealltwriaeth ymysg y cyhoedd am rôl a gwaith y Cynulliad Cenedlaethol
Llwyddiant = cynydd yn y ganran o atebion cywir yn C3. (Mae C2 yn gweithredu fel cwestiwn cydbwyso yn erbyn pobl yn dyfalu'r ateb cywir ar hap, h.y. a yw pobl yn gwybod cymaint ag y maent yn credu eu bod nhw?)

**C2. Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei ddeall am rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Llawer iawn, cryn dipyn, dim byd mawr, dim byd o gwbl

**C3. Dywedwch wrthyf os ydych yn credu bod y datganiadau canlynol yn wir neu'n anwir, neu os nad ydych yn gwybod.**

- Yr un peth yw Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol
- Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i wneud cyfreithiau ar rai materion
- Gall y Cynulliad Cenedlaethol amrywio'r dreth incwm
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am amddiffyn a diogelwch cenedlaethol.

**C4. Faint o Aelodau Cynulliad, sy'n cael eu hethol i gynrychioli pobl Cymru, sy'n bresennol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?**

**C5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am y Cynulliad Cenedlaethol?**

Cytuno'n gryf –Tueddu i gytuno – Ddim yn cytuno nac yn anghytuno – Tueddu i anghytuno – Anghytuno'n gryf

- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn effeithiol yn ei rôl o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog y cyhoedd i gyfrannu mewn democratiaeth
- Mae gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn bwysig i bobl Cymru.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn trafod ac yn gwneud penderfyniadau am faterion sy'n bwysig i mi
- Pe bawn i eisiau rhoi fy marn ar fater sy'n cael ei ystyried yn y Cynulliad Cenedlaethol, byddwn yn gwybod sut i wneud hynny.

- Dydw i ddim yn hollol glir am y gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Atodiad C

Sylw mawr i Fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ers mis Mai 2013

Mai:

- Un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw am gosbau llymach am dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau
- Llywodraeth Cymru wedi drysu rhwng proses wleidyddol a phroses ddeddfwriaethol mewn perthynas â rheoliadau'r dreth gyngor, yn ôl un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol
- Un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw am ddatganoli mwy o bwerau dros drafnidiaeth gyhoeddus
- Y Cynulliad Cenedlaethol i drafod y pryderon iechyd ynghylch hyrwyddo diodydd llawn caffein i blant a phobl ifanc

Mehefin:

- Diffygion ym mhrosesau Llywodraeth Cymru yn arwain at wastraffu mwy na £1 miliwn ar westy gwag – yn ôl un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol
- Ymdriniaeth Llywodraeth Cymru o AWEMA yn arwydd o ddiffygion rheoli grantiau – yn ôl un o Bwyllgorau'r Cynulliad
- Un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn dod i'r casgliad fod achosion o diabetes wedi cyrraedd lefel 'epidemig' yng Nghymru

Gorffennaf

- Dylai'r system addasiadau yn y cartref ganolbwyntio ar y person – geiriau Pwyllgor yn y Cynulliad Cenedlaethol

Awst:

- Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau seilwaith economaidd gogledd Cymru, yn ôl un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol

Tachwedd:

- Nid yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'i blaenoriaethau hi, meddai un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol

- Un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan bod angen cynllun clir ar entrepreneuriaid ifanc i ganfod eu ffordd drwy fyd cymhleth busnes.

Atodiad D

**Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol**

| Dyddiad | manylion |
|---|---|
| *15 Ebrill* | **Rosemary Butler AC, y Llywydd,** yn mynychu ail gyfarfod Pwyllgor Sefydlog CALRE yn Fenis.<br>Roedd y cyfarfod yn gyfle i drafod rheolaeth rhwydwaith a rhaglen CALRE, yn ogystal ag ystyried rôl y Cynulliad yn y dyfodol mewn grwpiau gwaith, yn edrych ar feysydd o ddiddordeb strategol a blaenoriaethau fel **e-ddemocratiaeth** a **Rhyw a Chydraddoldeb.** |
| *27 Mai - 1 Mehefin* | **Antoinette Sandbach AC** yn cynrychioli'r Cynulliad ym mhedwaredd Seminar Seneddol ar hugain y Gymanwlad yn Singapore***.** |
| *29 Mai* | **Peter Black AC** yn mynd i gyfarfod Gweithgor CALRE ynghylch e-ddemocratiaeth a gafodd ei gynnal yn Senedd Andalucia yn Sevilla. |
| *17 Mehefin* | **Joyce Watson AC** yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a Chymdeithasol y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ynghylch ei ymchwiliad presennol i fasnachu mewn pobl a gynhaliwyd yn Nulyn. |
| *24 Mehefin* | **Lindsday Whittle AC** yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod pwyllgor Materion Economaidd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn. |
| *8 Gorffennaf* | **Lindsday Whittle AC** yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod pwyllgor Ewropeaidd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig yn Nulyn. |
| *9 Gorffennaf* | Asiant Cyffredinol Québec, Stéphane Paquet, yn ymweld â'r Cynulliad ac yn cwrdd â'r Llywydd |
| *11 Gorffennaf* | Shan Morgan, Dirprwy Gynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE, yn ymweld â'r Cynulliad ar gyfer cyfres o gyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfod gyda Chadeiryddion Pwyllgorau'r |

| | |
|---|---|
| | Cynulliad. |
| *30 Gorffennaf – 6 Awst* | **Joyce Watson AC** yn cymryd rhan yn seminar ôl-etholiad y BIMR yn St Helena* |
| *28 Awst – 5 Medi 2013* | Cadeirydd y Gangen **Joyce Watson AC, Simon Thomas AC** ac **Ann Jones AC** yn cynrychioli Cangen Cymru o'r CPA yn 59fed Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad* (CPC) yn Johannesburg, De Affrica. Roedd Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad Adrian Crompton hefyd yn bresennol yn y gynhadledd i gymryd rhan yng nghyfarfod Cymdeithas y Clercod (SOCATT) |
| *20-22 Hydref 2012* | David Melding AC**, y Dirprwy Lywydd, William Powell AC, Joyce Watson AC, Lindsay Whittle AC a Darren Millar AC** yn bresennol yn 47fed cyfarfod Llawn Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon a gynhaliwyd yn Llundain. |

*Mae adroddiadau cynhwysfawr o holl weithgareddau Cangen Cymru o'r CPA i'w gweld yma

*Ymweliadau Llysgenhadol*

Cynhaliodd y Llywydd yr ymweliadau diplomyddol hyn i Fae Caerdydd yn ddiweddar. Yn ystod yr ymweliadau, rhoddodd drosolwg o'r Cynulliad a'i waith, a thrafododd bwysigrwydd hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru ar lwyfan y byd a rôl gadarnhaol cysylltiadau diplomyddol i gyflawni hyn.

- 17 Mehefin – Ei Hardderchowgrwydd Ms **Laetitia van den assum**, llysgennad yr **Iseldiroedd** i'r DU
- 12 Medi – Ei Ardderchowgrwydd Mr **Andris Teikmanis**, llysgennad **Latfia** i'r DU
- 1 Hydref – Ei Hardderchowgrwydd Mrs **Asta Skaisgirytė Liauškienė** llysgennad **Lithwania** i'r DU

- 8 Hydref – Ei Ardderchowgrwydd Mr **Konstantin Dimitrov**, llysgennad **Bwlgaria** i'r DU
- 10 Hydref – Ei Ardderchowgrwydd Mr **Jovan Donev**, llysgennad **Macedonia** i'r DU
- 25 Hydref – Ei Ardderchowgrwydd Mr **Dominik Furgler**, llysgennad **y Swistir** i'r DU.
- 6 Tachwedd – Ei Ardderchowgrwydd Mr **Matthew Barzun**, llysgennad **Unol Daleithiau America** i'r DU.

Atodiad E

Prosiectau a adolygwyd gan y Bwrdd Buddsoddi

| Cynnig | Diben |
|---|---|
| Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus | Annog menywod i wneud ceisiadau am benodiadau cyhoeddus a rolau eraill mewn bywyd cyhoeddus a allai, yn ei dro, arwain at well cynrychiolaeth gan fenywod mewn gwleidyddiaeth. |
| Prosiect y wefan / Sharepoint | Cyflwyno system rheoli cynnwys newydd ar gyfer y wefan (mae'r system bresennol yn dod i ben ym mis Medi 2014) a darparu amgylchedd a llwyfan ar gyfer rheoli gwybodaeth yn effeithiol ar draws y Cynulliad. |
| Prosiect diweddaru'r Senedd: Cam 3 | Gwneud nifer o newidiadau i'r seilwaith i wella ymhellach y systemau busnes a'r cyfleusterau i ymwelwyr yn y Senedd. Mewn un achos, mae hyn yn golygu cychwyn astudiaeth dichonoldeb a chwmpasu i'r posibilrwydd o gael system newydd yn lle Medialon. |
| Cyfieithu peirianyddol | Ymrwymo adnoddau i ddatblygu achos busnes. Nod yr Achos Busnes yw rhoi'r wybodaeth sydd ei angen i'r Comisiwn, er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ddarparu system cyfieithu peirianyddol gwell, i fodloni ei rwymedigaethau o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. |
| Prosiect Teleffoni 1 – | Ar hyn o bryd, mae Atos yn darparu gwasanaeth teleffoni llinell sefydlog wedi'i reoli'n llawn drwy'r contract Merlin. Defnyddir PSBA (Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus) i ddarparu cytundeb ar gyfer y gwasanaeth teleffoni ar ran Merlin, a ategir gan SECL (Siemens Communications Limited Enterprise). Ni all y darpariaeth hon barhau ar ôl i'r Comisiwn dynnu allan o'r contract Merlin. Felly, mae angen fframwaith cytundebol newydd ar gyfer gwasanaethau teleffoni cyn 31 Gorffennaf 2014. |
| Gwella'r llif gwaith | Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i Gam 1 a 2 yn ystod 2013– |

| Cynnig | Diben |
|---|---|
| darlledu | 14 a Cham 3 yn 2014-15:<br>Cam 1 - Senedd.tv newydd<br>Cam 2 - System isdeitlo newydd<br>Cam 3 - Archif ddigidol<br>Bydd y prosiect yn arwain at welliannau yn y meysydd canlynol:<br>• Sut y caiff trafodion byw a thrafodion o'r archif, a fideos eraill, eu dangos ar y rhyngrwyd;<br>• Sut y gall gwybodaeth am drafodion byw a thrafodion o'r archif gael ei dangos a'i dosbarthu gyda'r cyfryngau wedi'u ffrydio ar nifer o lwyfannau;<br>• Sut y gellir creu metadata yn y ffynhonnell, a sut y gellir ei gysylltu a'i ddosbarthu â'r cyfryngau wedi'u ffrydio.<br>• Sut y gellir ailddefnyddio metadata ar draws nifer o systemau;<br>• Sut y gellir dod o hyd i glipiau a gwybodaeth yn hawdd, a sut y gellir eu hailddefnyddio a'u hail-bwrpasu;<br>• Sut mae'r recordiad clyweledol o drafodion y Cynulliad yn cael ei storio a'i adalw. |
| Ymgysylltu â phobl ifanc | • Bydd y prosiect hwn yn ystyried sut i wella ein gwasanaethau ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu deall gwaith y Cynulliad a chymryd rhan yn ei waith, er mwyn adeiladu democratiaeth fywiog yng Nghymru a fydd yn gweddu i'r dyfodol. |

Atodiad F

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH
## Ebrill – Medi 2013

Daeth 12 o geisiadau am wybodaeth i law yn ystod y cyfnod Ebrill – Medi 2013. Mae'r categorïau yn ymwneud â natur y cais

Aelodau'r Cynulliad

- Hyfedredd Aelodau'r Cynulliad yn yr iaith Gymraeg. Dim gwybodaeth wedi'i chadw

Technoleg gwybodaeth

- Manylion am negeseuon e-bost a anfonwyd o restrau dosbarthu'r pleidiau Dim gwybodaeth wedi'i chadw
- Mynediad i dudalennau Wikipedia ar draws y rhwydwaith x 2

Pwyllgorau

- Dogfennau a ddaliwyd yn ôl a gafodd eu cyflwyno fel tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (River Lodge, Llangollen)

Ystadau / Cyfleusterau

- Costau adnewyddu yn Nhŷ Hywel x 2
- Arian a dderbyniwyd yn sgîl ffilmio Dr Who

Y Bwrdd Taliadau

- Y Bwrdd Taliadau a'i gysylltiadau â Swyddfa Archwilio Cymru

Comisiwn y Cynulliad

- Manylion am gontractau sero awr
- Nifer yr ymweliadau gan ysgolion a grwpiau cymunedol
- Manylion am bolisïau yswiriant a thaliadau

## GWYBODAETH A DDALIWYD YN ÔL YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

### Ebrill – Medi 2013

Derbyniwyd 8 cais am wybodaeth yn ystod y cyfnod Ebrill – Medi 2013, a nodir yr eithriad perthnasol isod.



Aelodau'r Cynulliad

- Cyflogi staff cefnogi x 2 (Adran 40 – Gwybodaeth bersonol)
- Gwariant ar dacsis gan ACau (a staff y Comisiwn) (Adran 21 – eisoes yn hygyrch drwy ddulliau eraill)*(Hefyd yn ymwneud â chategori Comisiwn y Cynulliad)*

Pwyllgorau

- Cyngor cyfreithiol a roddwyd mewn perthynas â Bil Aelod (Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol)
- Gohebiaeth ar ddeiseb (Gwahardd yr Arfer o Ddal Swyddi fel Cynghorydd ac fel Aelod Cynulliad ar yr un Pryd) (Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol)

Y Bwrdd Taliadau

- Y Bwrdd Taliadau (Adran 22 – golwg ar gyhoeddi)
- Bwrdd Taliadau (Adran 22 – golwg ar gyhoeddi ac adran 36 – cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol)

- Bwrdd Taliadau (a pholisïau Adnoddau Dynol mewnol). (Adran 22 – golwg ar gyhoeddi) *(Yn ymwneud â chategori Comisiwn y Cynulliad hefyd)*

<u>Comisiwn y Cynulliad</u>

*Gweler ceisiadau 'Aelodau'r Cynulliad' a 'Bwrdd Taliadau' uchod*